

Bingo Diogelwch Tân

Dwi'n profi fy larymau mwg yn rheolaidd

Pwyswch y botwm ar eich larymau i sicrhau eu bod yn gweithio.

Dwi'n cadw drysau tân ar gau

Mae drysau tân yn aros ar gau yn fy nghartref i atal tanau rhag lledaenu.

Dwi'n gwybod fy nghynllun dianc

Mae fy aelwyd wedi ymarfer sut i fynd allan yn ddiogel mewn tân.

Dwi'n cadw'r cynteddau yn glir

Mae fy llwybrau dianc yn rhydd o bramiau, beiciau ac annibendod.

Dwi'n defnyddio un plwg ym mhob soced

Dwi'n osgoi gorlwytho socedi i leihau risgiau tân.

Dwi'n aros yn y gegin wrth goginio

Dydw i byth yn gadael yr ystafell pan fydd bwyd ar yr hob.

Dwi'n datgysylltu offer sydd ddim yn cael ei ddefnyddio

Dwi'n diffodd ac yn datgysylltu eitemau pan nad ydw i'n eu defnyddio.

Dwi'n defnyddio gwarchodwyr tân gyda gwresogyddion a fflamiau agored

Mae fy nghartref yn cael ei amddiffyn rhag llosgiadau damweiniol.

Dwi'n diffodd sigarêts yn iawn

Dwi'n gofalu eu bod nhw'n cael eu gwaredu'n ddiogel a dydw i byth yn smygu yn y gwely.

Dwi'n cau drysau yn y nos

Cyn mynd i'r gwely, dwi'n gofalu bod pob drws ar gau i atal tanau.

Dwi'n cadw fentiau'n glir

Does dim yn rhwystro fy fentiau, ac mae hynny'n caniatáu i aer lifo'n ddiogel.

Dwi'n nabod arwyddion nwy yn gollwng

Dwi'n effro i arogleuon nwy neu synau hisian ac yn gwybod pwy i ffonio.

Dwi'n gadael gwaith trydanol i'r arbenigwyr

Dwi'n rhoi gwybod am unrhyw beth sydd o'i le a byth yn trio'u trwsio nhw fy hun.

Dwi'n cadw golwg am blygiau a gwifrau wedi'u difrodi

Dwi'n cadw fy offer mewn cyflwr da er mwyn osgoi risgiau.

Dwi'n defnyddio gwefrwyr diogel

Dwi'n prynu gwefrwyr gan werthwyr dibynadwy a dim ond yn defnyddio'r rhai a ddaeth gyda fy nyfeisiau.

Dwi'n amddiffyn fy mhlant bach rhag socedi

Mae gan fy nghartref orchuddion atal plant ar allfeydd trydanol.

Dwi'n gadael i archwilwyr diogelwch ddod i mewn i'm cartref

Dwi bob amser yn gadael i unrhyw archwiliadau diogelwch nwy a thrydanol ddigwydd ar amser.

Dwi'n gwybod â phwy i gysylltu mewn argyfwng

Dwi wedi arbed 999 ac mae rhif fy landlord mewn lle hawdd dod o hyd iddo.

Dwi'n rhoi gwybod am unrhyw beth sydd o'i le yn gyflym

Os ydw i'n gweld unrhyw broblem ddiogelwch, dwi'n dweud wrth fy landlord ar unwaith.

Dwi'n cadw llygad am beryglon posibl

Dwi'n ymwybodol o risgiau ac yn cymryd camau i'w trwsio neu eu hadrodd.